

# Meithrin economïau gwydn

## Swyddogaeth gweithredu ar yr hinsawdd gan awdurdodau lleol y DU

Mai 2025



# Contents


**03** Crynodeb Gweithredol

**04** Awdurdodau lleol y DU yn adrodd drwy'r CDP-ICLEI Track yn 2024

**05** Cipolwg ar sut mae awdurdodau lleol y DU yn gweithredu ar yr hinsawdd

**09** Ysgogi gweithredu lleol

**14** Heriau pellach i weithredu'n ddwysach

**15** Casgliad

**17** Atodiad


**Hysbysiad cyfreithiol**

Hysbysiad pwysig: Gall unrhyw un ddefnyddio'r adroddiad hwn ar yr amod y rhoddir cydnabyddiaeth i CDP. Nid yw hyn yn rhoi hawl i ailbecynnu neu ailwerthu unrhyw elfen o'i gynnwys heb ganiatâd penodol CDP ac ICLEI. Mae CDP wedi paratoi'r data a'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion awdurdodau lleol y DU i Holiadur Dinasoedd 2024 ar CDP-ICLEI Track. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys data o ddinasoedd neu, mewn rhai achosion, grwpiau o ddinasoedd ar wahanol lefelau gweinyddol a adroddodd yn 2024. Mae hyn yn cynnwys dinasoedd, ardaloedd metropolitan, awdurdodau lleol, awdurdodau cyfunol, a rhai cynghorau rhanbarthol. Mae'r holl wybodaeth a safbwyntiau a fynegir yma gan CDP yn seiliedig ar eu barn ar adeg yr adroddiad hwn ac fe allant newid heb rybudd. Mae sylwadau gwadd, lle y'u cynhwysir yn yr adroddiad hwn, yn farn eu priod awduron; nid yw eu cynnwys yn golygu eu cymeradwyo.
Mae 'CDP' yn cyfeirio at CDP Worldwide, elusen gofrestredig rhif 1122330 a chwmni cyfyngedig trwy warant, sydd wedi'i gofrestru yn Lloegr rhif 05013650.
© 2025 CDP Worldwide. Cedwir pob hawl.



# Crynodeb Gweithredol

**Wrth i effeithiau newid hinsawdd ddwysáu ledled y DU, mae awdurdodau lleol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb i arwain yr ymgyrch o sicrhau dyfodol cadarnhaol ar y Ddaear. Trwy CDP-ICLEI Track, mae awdurdodau lleol yn datgelu eu data amgylcheddol, gan alluogi tryloywder, atebolrwydd a gweithredu. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed gan awdurdodau lleol y DU yn 2024, yr heriau y maent yn eu hwynebu, a swyddogaeth hanfodol datgelu wrth gymell gweithredu effeithiol ar yr hinsawdd.**

## Canfyddiadau Allweddol

### Ymrwymo i dryloywder

Yn 2024, datgelodd y nifer fwyaf erioed o awdurdodau lleol trwy CDP-ICLEI Track, gan ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder amgylcheddol a gweithredu ar yr hinsawdd yn seiliedig ar ddata lleol o bob cwr o'r DU. Datgelodd cyfanswm o 104 o awdurdodau lleol y DU, sy'n gynnydd syfrdanol o 52% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn cynrychioli dros hanner poblogaeth y DU a hanner ei allyriadau.

### Cymell gweithredu uchelgeisiol ar yr hinsawdd

Mae pob awdurdod lleol sydd wedi datgelu wedi gosod targed lleihau allyriadau ledled yr ardal, gyda'r mwyafrif ohonynt (96%) hefyd wedi llunio cynllun gweithredu cysylltiedig ar yr hinsawdd. Bu i nifer cyfartalog y camau gweithredu ar yr hinsawdd a adroddwyd gan awdurdodau lleol ddyblu bron iawn o 7.5 yn 2018 i 14.9 yn 2024, gan adlewyrchu ymrwymiad ac uchelgais cynyddol ymhlith awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

### Hybu gwytnwch mewn cymunedau ac economïau lleol

Mae awdurdodau lleol yn adrodd amrywiaeth o fanteision sy'n deillio o weithredu ar yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys costau llai, gwell ansawdd aer, creu swyddi, lleihau tlodi ynni a mwy o fioamrywiaeth. Mae'r cyd-fuddion hyn yn dangos y gall gweithredu ar yr hinsawdd osod y sylfaen ar gyfer economïau gwydn a chymunedau lleol ffyniannus.

### Nodi bylchau a heriau

Er gwaethaf cynnydd, mae 48% o awdurdodau lleol yn nodi cyfyngiadau cyllidebol fel rhwystr sylweddol i addasu i'r hinsawdd. Ar ben hyn, nid yw traean (32%) wedi cynnal asesiadau risg hinsawdd eto, ac nid oes gan 30% strategaethau addasu. Mae datgelu yn galluogi awdurdodau lleol i dynnu sylw at eu risgiau hinsawdd, anghenion prosiectau, a bylchau ariannu – gan ddarparu gwybodaeth werthfawr a all helpu denu ffynonellau newydd o fuddsoddiad a chefnogaeth uniongyrchol i'r lle mae ei angen fwyaf.

Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y rhan ganolog sydd gan awdurdodau lleol wrth lunio ymateb y DU i newid hinsawdd. Er bod camau sylweddol wedi'u gwneud, mae cefnogaeth barhaus, cyllid a chysondeb polisi yn hanfodol i rymuso llywodraethau lleol i symud ymlaen tuag at eu huchelgeisiau hinsawdd, cyfrannu'n effeithiol at nodau cenedlaethol a meithrin dyfodol gwydn i'w cymunedau.

# Awdurdodau lleol y DU yn adrodd drwy'r CDP-ICLEI Track yn 2024

● Awdurdodau lleol sy'n adrodd yn 2024 (cyhoeddus yn unig) wedi eu hamlygu




**Yn 2024, datgelodd 104 o awdurdodau lleol y DU drwy'r CDP-ICLEI Track – cynnydd sylweddol o 52% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gyda'i gilydd maent yn cynrychioli:**

55%
o allyriadau'r DU

59%
o boblogaeth y DU

53%
o gynnydd domestig gros y DU

# Cipolwg ar sut mae awdurdodau lleol y DU yn gweithredu ar yr hinsawdd

## Newid hinsawdd yn y DU: Gweithredu lleol i gyflawni nodau cenedlaethol

Nid yw'r angen am weithredu brys ar yr hinsawdd erioed wedi bod yn gliriach. Mae gwyddoniaeth yn dangos yn ddiamwys bod gweithgareddau dynol yn achosi cynhesu byd-eang cyflym ac yn cynyddu risgiau hinsawdd ledled y byd.[1] Mae'r costau economaidd hefyd yn cynyddu – heb weithredu brys ac effeithiol ar yr hinsawdd, gallai'r DU wynebu dros £8 biliwn o gostau iawndal bob blwyddyn erbyn 2050, gyda'i GDP yn crebachu mwy na 7% oherwydd aflonyddwch sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.[2,3]

2023 oedd yr ail flwyddyn gynhesaf erioed yn y DU. Ar yr un pryd, mae achosion o dywydd eithafol, o lifogydd i wres eithafol, yn cynyddu mewn amlder a dwysedd. Mae'r tueddiadau hyn yn ein hatgoffa bod effeithiau cynyddol newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar economïau a chymunedau lleol ledled y DU. Bydd buddsoddi mewn addasu i'r hinsawdd yn lleol yn hanfodol i feithrin gwytnwch economaidd a sicrhau dyfodol lle gall pobl a'r blaned ffynnu.

Mae dinasoedd ac awdurdodau lleol yn ddarn allweddol o'r darlun ehangach wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd. Hebddyn nhw, ni fydd gweithredu yn effeithiol. Mae gan awdurdodau lleol y grym i ddylanwadu ar oddeutu 82% o allyriadau'r DU, sy'n eu gwneud yn anhepgor i'r DU fodloni ei chyllidebau carbon cenedlaethol.[4]

Gan gydnabod y rhan hanfodol sydd i awdurdodau lleol wrth gyflawni targed sero net cyfrwymol y DU erbyn 2050, mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r adroddiadau amgylcheddol a'r camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol y DU fel y'u datgelwyd drwy'r CDP-ICLEI Track yn 2024. Mae'n taflu goleuni ynghylch sut mae tryloywder a gweithredu lleol yn rhoi hwb i wydnwch ac yn cyfrannu at nodau cenedlaethol, ac yn tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer mwy o uchelgais ac effaith.

Mae datgelu data amgylcheddol yn hanfodol i sicrhau gweithredu ac atebolrwydd ar bob lefel. Mae adrodd tryloyw gan awdurdodau lleol yn helpu i olrhain cynnydd lleol, nodi meysydd sydd angen mwy o sylw, ac yn meithrin atebolrwydd ymhlith awdurdodau lleol a'u cymunedau[5]. Trwy adrodd eu data amgylcheddol a'u heffeithiau ar yr hinsawdd, mae awdurdodau lleol hefyd yn darparu gwybodaeth hanfodol a all lywio'r asesiadau cynnydd a'r addasiadau polisi sydd eu hangen i sicrhau bod y DU yn aros ar y trywydd iawn i gyrraedd ei nodau hinsawdd cenedlaethol.

### Deall risgiau hinsawdd yn Ninasoedd y DU

Gall peryglon hinsawdd fel llifogydd, gwres mawr, a stormydd gael canlyniadau difrifol i gymunedau lleol, gan niweidio cartrefi, tarfu ar rwydweithiau trafnidiaeth, a pheryglu iechyd y cyhoedd – yn enwedig grwpiau bregus. Mae awdurdodau lleol wedi nodi'r grwpiau hyn fel rhai sydd mewn perygl arbennig:

- **Pobl hŷn** (wedi'u nodi gan **89%** o awdurdodau lleol)
- **Grwpiau gwael eu hiechyd** (**87%**)
- **Aelwydydd incwm isel** (**86%**)
- **Gweithwyr awyr agored** (**72%**)

Gall y digwyddiadau hyn hefyd roi pwysau mawr ar wasanaethau a sectorau hanfodol, gan beri iddyn nhw gau o bosib, yn fwyaf arbennig y gwasanaethau iechyd a gwaith cymdeithasol (a nodwyd gan 83% o awdurdodau lleol), gan arwain at aflonyddwch cymdeithasol ac economaidd ar draws rhanbarthau cyfan.

1 Climate Change 2023 Synthesis Report – IPCC - 2023
2 https://www.lse.ac.uk/granthaminstitute/news/new-study-finds-cutting-greenhouse-gas-emissions-to-net-zero-will-save-significant-damage-to-the-uk-economy/
3 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61e54d8f8fa8f505985ef3c7/climate-change-risk-assessment-2022.pdf
4 DESNZ (2021) Net Zero Strategy: Build Back Greener. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy
5 2024-25 Sustainability Reporting Guidance – Y Trysorlys – 2024

## Uchelgais a gweithredu yn awdurdodau lleol y DU

Gyda chyfran sylweddol o allyriadau'r DU yn dod o fewn eu dylanwad, mae ymrwymiad a gweithredu gan awdurdodau lleol yn hanfodol ar gyfer trawsnewidiad llwyddiannus i ddyfodol gwydn a chadarnhaol i'r Ddaear. Mae datgeliad amgylcheddol, megis trwy CDP-ICLEI Track, yn gonglfaen i weithredu hinsawdd effeithiol, gan alluogi tryloywder, hwyluso olrhain cynnydd, a gyrru mentrau cynaliadwyedd mwy uchelgeisiol yn lleol.

Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn wynebu rhwystrau sylweddol yn eu hymdrechion, yn enwedig pwysau cyllidebol sylweddol oherwydd costau cynyddol a chyfyngiadau parhaus ar gyllid y llywodraeth, sy'n ei gwneud hi'n anodd cynnal buddsoddiad angenrheidiol.[6,7,8,9]

### 5 Pum perygl hinsawdd a adroddwyd amlaf

- Gwres eithafol
- Llifogydd afonydd
- Llifogydd trefol
- Glaw trwm
- Sychder



Er gwaethaf yr heriau hyn, mae cryn uchelgais o hyd. Mae mwy o awdurdodau lleol y DU nac erioed o'r blaen yn datgelu, gyda mwy o awdurdodau lleol nag erioed o'r blaen yn dewis mesur, rheoli ac adrodd eu heffeithiau amgylcheddol trwy CDP-ICLEI Track.

O'r mwy na 300 o awdurdodau lleol y DU sydd wedi datgan argyfwng hinsawdd, adroddodd 104 trwy CDP-ICLEI Track yn 2024. Mae'r cynnydd hwn o dros 52% ers 2023 yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus awdurdodau lleol i gymryd rhan flaenllaw yng ngwaith y DU i reoli effeithiau amgylcheddol. Mae'r data hwn yn ganolog i lywio polisi a phenderfyniadau cadarnhaol ar gyfer llywodraethau lleol a chenedlaethol.

Mae gan bob un o'r 104 awdurdod lleol hyn darged lleihau allyriadau ledled yr ardal, i fyny o 67% yn 2018; tra bod gan 96% gynlluniau gweithredu hinsawdd o'i gymharu â dim ond 58% yn 2018. Mae camau gweithredu ar yr hinsawdd a adroddwyd gan awdurdodau lleol yn 2024 bron â dyblu (14.9 ar gyfartaledd) o'i gymharu â 2018 (7.5 ar gyfartaledd), gyda llawer o awdurdodau lleol yn nodi manteision ychwanegol gweithredu ar yr hinsawdd y tu hwnt i liniaru ac addasu yn unig. Mae'r manteision a adroddwyd trwy CDP-ICLEI Track yn cynnwys costau llai, gwell ansawdd aer, gwell diogelwch ynni, cadwraeth bioamrywiaeth, creu swyddi, a gwell lles meddyliol.

Mae ymdrechion llywodraeth leol i weithredu ar yr hinsawdd hefyd wedi meithrin ymgysylltiad cymunedol, trafnidiaeth a mannau gwyrdd mwy hygyrch, lleihau tlodi tanwydd, ac wedi cyfrannu at ddarparu gwasanaethau mwy cyfiawn a chyfartal ar draws cymunedau. I awdurdodau lleol y DU, mae mynd i'r afael â newid hinsawdd yn rhagweithiol wedi arwain at fanteision ychwanegol sylweddol sy'n cryfhau economïau lleol, yn gwella ansawdd bywyd, ac yn creu cymdeithasau mwy gwydn a theg.

6 Local government financial sustainability – Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol - 2025
7 Sustainability Survey 2024 – Cymdeithas Llywodraeth Leol – 2024
8 Progress towards reaching Net Zero in the UK – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – 2024
9 The Seventh Carbon Budget – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – 2025

## Cyd-fuddion mwyaf cyffredin a adroddir

1 Lleihau tlodi tanwydd ac ynni

2 Costau llai

3 Mwy o ddiogelwch ynni

4 Creu swyddi

5 Llai o effeithiau iechyd o wres eithafol neu dywydd oer

## Camau lliniaru mwyaf cyffredin

1 Mesurau effeithlonrwydd ynni ac ôl-osod

2 Pwyntiau gwefru a seilwaith cerbydau trydan

3 Cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle

4 Gwella cerdded, beicio a mynediad at drafnidiaeth integredig

5 Mannau gwyrdd a/neu gadw ac ehangu bioamrywiaeth

## Camau addasu mwyaf cyffredin

1 Amddiffyn rhag llifogydd

2 Ymgysylltu â'r gymuned/addysg

3 Adfer ecolegol (gan gynnwys cadwraeth ac adfer gwlyptiroedd a gorlifdiroedd)

4 Seilwaith gwyrdd

5 Coedwigo ac ailgoedwigo



# Golwg fanylach – Canolbarth Lloegr

Pan fydd dinasoedd yn dod at ei gilydd fel cymunedau ymarfer, maent yn creu mannau gwerthfawr i rannu gwybodaeth, cydweithio, a meithrin gallu ar y cyd i gyflwyno data amgylcheddol cyson. Mae'r cydweithrediad hwn yn helpu sicrhau bod data yn gymharol ac yn ddibynadwy, sy'n hanfodol ar gyfer olrhain cynnydd, nodi arferion gorau, a gwneud penderfyniadau polisi gwybodus.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2024 yn nifer yr awdurdodau lleol o Ganolbarth Lloegr sy'n cyflwyno data amgylcheddol trwy CDP-ICLEI Track. Roedd prosiect ar y cyd rhwng CDP, 'Midlands Net Zero Hub' a 'Sustainability West Midlands' yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r wybodaeth amgylcheddol gan fwy na hanner y 71 awdurdod lleol yn y rhanbarth. Roedd y data yn caniatáu i dîm y prosiect ddarparu cipolwg unigryw o ran gweithredu ar yr hinsawdd yng Nghanolbarth Lloegr i lunwyr polisi yn ogystal â chefnogi gwaith yr awdurdodau lleol unigol.

Trwy ddysgu o lwyddiannau a heriau ei gilydd, bydd y garfan hon o awdurdodau lleol yn gallu gweithredu ynghynt ar yr hinsawdd, osgoi dyblygu ymdrechion, a chryfhau eu heffaith ar y cyd ar leihau allyriadau ac adeiladu gwytnwch hinsawdd.

## 39 o 71

awdurdod lleol wedi darparu gwybodaeth amgylcheddol i'w dadansoddi





# Golwg fanylach – Parciau Cenedlaethol

Mae mesur ac adrodd eu data hinsawdd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr yn hanfodol i Awdurdodau Parc Cenedlaethol y DU ddeall a rheoli eu cyfraniad at newid hinsawdd. Mae data cywir yn galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus, gan helpu awdurdodau i olrhain cynnydd tuag at dargedau sero net a nodi strategaethau effeithiol ar gyfer lleihau carbon. Mae hefyd yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, gan feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd ac annog cydweithredu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid wrth ddiogelu'r tirweddau gwarchodedig hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

O'r 15 Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y DU, bu i 11 ohonyn nhw ddatgelu gwybodaeth drwy'r CDP-ICLEI Track yn 2024, ac mae naw ohonynt wedi gosod targedau i gyrraedd sero net.

Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ran unigryw o ran gweithredu cenedlaethol ar yr hinsawdd. Gan reoli prosiectau natur yn ofalus, mae modd i'r ardaloedd hyn ddod yn sinciau carbon mawr eu hangen, gan hwyluso cynnydd y DU tuag at allyriadau carbon sero-net.

## 11 o 15

Awdurdod Parc Cenedlaethol y DU wedi datgelu drwy CDP-ICLEI Track yn 2024

# Ysgogi gweithredu lleol

## Cyllido ymatebion i'r hinsawdd

Mae'r diffyg cyllid cyson a digonol yn her sylweddol i awdurdodau lleol ledled y DU. Mae awdurdodau lleol ar flaen y gad o ran cyflawni llawer o'r mentrau sydd eu hangen i leihau allyriadau, gwella gwytnwch, a chefnogi cymunedau. Rhoddir cyfrifoldebau uchelgeisiol ar eu hysgwyddau o ran yr hinsawdd ond nid oes ganddynt y cymorth ariannol sefydlog, hirdymor sydd ei angen i gynllunio a chyflawni prosiectau ar y raddfa angenrheidiol.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn ymgodymu â chyllidebau tynn oherwydd pwysau economaidd ehangach, amryfal gyfrifoldebau statudol, a chlytwaith o gynlluniau cyllido tymor byr y gall ymgeisio amdanynt olygu traul fawr ar amser. Mae llawer o'r cyllid sydd ar gael hefyd yn aml yn ffafrio prosiectau lliniaru 'parod' dros y gwaith addasu tymor hwy neu fwy cymhleth sy'n angenrheidiol

Heb gefnogaeth ariannol ddiogel a rhagweladwy, mae awdurdodau lleol yn cael trafferth datblygu'r capasiti a'r partneriaethau sydd eu hangen i gyflawni prosiectau hinsawdd ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol i gyrraedd nodau sero net cenedlaethol a lleol.

i feithrin gwytnwch o ran risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Heb gefnogaeth ariannol ddiogel a rhagweladwy, mae awdurdodau lleol yn cael trafferth datblygu'r capasiti a'r partneriaethau sydd eu hangen i gyflawni prosiectau hinsawdd ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol i gyrraedd nodau sero net cenedlaethol a lleol.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae yna nifer o enghreifftiau o awdurdodau lleol sydd wedi dangos arweinyddiaeth a chreadigrwydd go iawn o ran sicrhau a defnyddio cyllid ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd. Mae rhai wedi llwyddo i drosoli grantiau'r llywodraeth ganolog, fel Cynllun Datgarboneiddio Sector Cyhoeddus neu gynllun Cyflawni Awdurdodau Lleol Grant Cartrefi Gwyrdd, i ôl-osod adeiladau, datgarboneiddio systemau gwresogi, a gwella effeithlonrwydd ynni ar draws ystadau cyhoeddus. Mae eraill wedi ffurfio partneriaethau gyda buddsoddwyr preifat, wedi sicrhau cyllid trwy fargeinion datganoli dinas-rhanbarthau, neu wedi ymuno â chonsortia i gryfhau ceisiadau am botiau cyllido cystadleuol. Mae nifer cynyddol o awdurdodau lleol yn datgelu eu prosiectau hinsawdd a'u hanghenion buddsoddi, ac mae'r tryloywder hwn yn helpu denu ffynonellau newydd o gyllid cyhoeddus a phreifat.

48%

o awdurdodau lleol yn dweud mai **capasiti cyllidebol** yw'r ffactor mwyaf heriol wrth addasu i effeithiau newid hinsawdd.

333

o brosiectau wedi eu datgelu gan...

69

awdurdod lleol, y maent yn ceisio cyllid ar eu cyfer

£67bn

cyfanswm gwerth y prosiectau hyn a...

£27bn

yn cael ei geisio mewn buddsoddiad

(Er ei bod yn debygol bod y ffigur buddsoddi hunan-adroddedig hwn yn danamcangyfrif sylweddol o'r angen gwirioneddol.)

Y tu hwnt i sicrhau cyllid, mae llawer o awdurdodau lleol hefyd wedi dangos modelau llywodraethu a chyflenwi cryf. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori ystyriaethau hinsawdd mewn prosesau caffael, gweithio'n agos gyda chymunedau, a sicrhau bod cyllid yn arwain at arbedion carbon mesuradwy a chyd-fuddion.



**Cyngor Dinas Manceinion**

## Ôl-osod Adeiladau Cyhoeddus a Phreswyl

**Effaith amcangyfrifedig**

Arbedion blynyddol o oddeutu 3,000 tunnell o $CO_2e$ a 3,000 MWh o ynni; mwy o effeithlonrwydd ynni, gostyngiadau mewn costau gweithredol, a chynnydd tuag at darged sero net 2038 y ddinas.

Mae Cyngor Dinas Manceinion wedi cyfeirio cyllid o sawl ffynhonnell, gan gynnwys y Gronfa Datgarboneiddio Tai Cymdeithasol a Chynllun Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus, tuag at ôl-osod adeiladau preswyl a masnachol. Rhagwelir y bydd ôl-osod 700 o unedau tai cymdeithasol sy'n eiddo i'r cyngor yn lleihau allyriadau carbon dinas Manceinion hyd at 2,000 tunnell bob blwyddyn. Mae adeiladau sector cyhoeddus ychwanegol wedi cael eu huwchraddio mewn modd tebyg gan gynnwys ymgorffori goleuadau effeithlon, gosodiadau ynni adnewyddadwy, a systemau gwresogi uwch. Mae cynllunio strategol hefyd ar y gweill i weithredu gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar draws 21 ysgol ledled y ddinas, a ariennir gan y Gronfa Sgiliau Carbon Isel.

**2,000**

tunnell o allyriadau carbon yn llai bob blwyddyn

**Cyngor Dinas Brighton & Hove**

## Effeithlonrwydd Ynni mewn Seilwaith Cyhoeddus

Ers 2017, mae Brighton & Hove wedi gweithredu rhaglen amnewid bylbiau LED ar raddfa fawr o dan ei fenter Buddsoddi i Arbed. Mae mwy na 18,000 o oleuadau stryd wedi'u huwchraddio, gan arwain at ostyngiad o 48.1% yn y defnydd o drydan a gostyngiad o 78.1% mewn allyriadau erbyn Ebrill 2024. Mae gwaith ôl-osod ychwanegol yn cynnwys gosod bylbiau LED mewn cyfleusterau chwaraeon ac adeiladau trefol, gyda chefnogaeth Cronfa Carbon Niwtral y cyngor a chyfraniadau datblygwyr (Adran 106). Mae'r deunyddiau a ddefnyddir wrth uwchraddio seilwaith cyhoeddus yn gyfystyr â dros 80% wedi'u hailgylchu yn ôl pwysau, gan gyfrannu at nodau economi gylchol Brighton & Hove.

**78.1%**

o ostyngiad mewn allyriadau erbyn Ebrill 2024

**Effaith Amcangyfrifedig**

Arbedion cost gweithredol sylweddol, mwy o ddiogelwch ar y ffyrdd, gostyngiadau allyriadau o leiaf 93 tunnell cyfwerth o $CO_2$ erbyn 2030, a gwell gwytnwch systemau goleuadau yn ystod digwyddiadau sy'n rhoi straen ar y seilwaith.

## Cyd-fanteision gweithredu ac addasu o ran yr hinsawdd

Mae gweithredu ar yr hinsawdd yn cynnig ystod o gyd-fuddion gwerthfawr i awdurdodau lleol y DU a'u cymunedau. Er enghraifft, trwy fuddsoddi mewn mesurau addasu – megis gwella seilwaith gwyrdd, gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd, neu uwchraddio systemau draenio – mae awdurdodau lleol nid yn unig yn lleihau'r risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau tywydd eithafol, ond hefyd yn gwella ansawdd aer, cefnogi bioamrywiaeth, a chreu mannau cyhoeddus deniadol sy'n annog gweithgarwch corfforol a chysylltiad cymdeithasol.

Mae cymryd camau cynnar a rhagweithiol hefyd yn dod â manteision economaidd trwy amddiffyn economïau a gwasanaethau lleol rhag straen ariannol cynyddol effeithiau'r hinsawdd. Mae cryfhau gwytnwch seilwaith cyhoeddus, o ffyrdd a systemau ynni i ysgolion a chyfleusterau gofal iechyd, yn lleihau'r risg o darfu costus ac yn sicrhau y gall gwasanaethau hanfodol barhau i weithredu yn ystod achosion o dywydd eithafol.

Ar yr un pryd, mae llawer o brosiectau addasu yn creu swyddi lleol medrus ac yn ysgogi arloesi mewn diwydiannau fel adeiladu, peirianneg a rheoli amgylcheddol. I awdurdodau lleol, mae hyn yn golygu bod mesurau gwytnwch hinsawdd nid yn unig yn ymwneud â rheoli risgiau, ond hefyd am ddatgloi buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sy'n gwella lles a ffyniant cymunedol yn y tymor hir.

Mae cymryd camau cynnar a rhagweithiol hefyd yn dod â manteision economaidd trwy amddiffyn economïau a gwasanaethau lleol rhag straen ariannol cynyddol effeithiau'r hinsawdd.

**Blackburn gyda Chyngor Bwrdeistref Darwen**

## Adfer Mawndiroedd

Nod y fenter adfer amgylcheddol hon a arweinir gan y cyngor yw adfer oddeutu 225 hectar o fawndir ucheldirol sydd wedi diraddio. Mae'r fenter yn cynnwys ymyriadau fel llenwi ffosydd draenio hanesyddol, dileu draenio amaethyddol o dan yr wyneb, ac ailblannu rhywogaethau o blanhigion sy'n frodorol i gorsydd. Bwriad y camau hyn yw cynyddu faint o ddŵr sydd yn y tir, atafaelu carbon yn fwy effeithiol, lleihau'r risg o danau gwyllt, a hyrwyddo bioamrywiaeth.

**225** 

hectar o fawndir i'w adfer

Mae nodau'r fenter hon yn cyd-fynd ag amcanion ehangach y cyngor i addasu i'r hinsawdd trwy wella swyddogaeth hydrolegol ac ecolegol tirweddau naturiol.

**Effaith Amcangyfrifedig**

Mwy o wydnwch yn yr hinsawdd ar draws 31-40% o ecosystemau lleol, gwell capasiti storio carbon, gwell bioamrywiaeth, a gwell rheoleiddio dŵr.



## Cyngor Dinas Birmingham

# Parc Ynni Tyseley

Mae Cyngor Dinas Birmingham yn arwain menter datgarboneiddio amlochrog trwy ddatblygu Parc Ynni Tyseley sy'n ffurfio rhan o Ardal Fenter Amgylcheddol Tyseley, yn Nwyrain Birmingham. Mae'r prosiect yn integreiddio technolegau carbon isel a di-garbon i fynd i'r afael â heriau trefol allweddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu pŵer, gwresogi, trafnidiaeth a rheoli gwastraff.

**Effaith Amcangyfrifedig**
Gwell gwytnwch ynni, arloesi technolegol, creu swyddi, lleihau allyriadau, a strategaethau addasu hinsawdd cryfhau.



Credit: Tyseley Energy Park

Trwy fanteisio ar asedau fel y Cyfleuster Adfer Ynni, seilwaith trafnidiaeth rhanbarthol, a rhwydwaith o 230 o fusnesau lleol, mae'r parc wedi'i gynllunio i gefnogi ecosystem ynni gynaliadwy, integredig. Yn ganolog i'r safle mae gorsaf ail-lenwi hydrogen gwyrdd fwyaf y DU, sy'n gwasanaethu fflydoedd trafnidiaeth gyhoeddus a chasglu gwastraff wedi'u pweru gan hydrogen. Mae'r hydrogen yn cael ei gynhyrchu trwy electroleiddiwr pilen cyfnewid protonau, gan sicrhau ffynhonnell ynni allyriadau isel. Mae'r fenter hefyd yn blaenoriaethu datblygu'r gweithlu a thwf cynhwysol trwy ymgorffori cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth mewn sectorau ynni glân. Mae sefydliadau academaidd, busnesau, asiantaethau cyhoeddus, a chymunedau lleol yn cefnogi a chyd-ddatblygu'r fenter.

## Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA)

# Her Hinsawdd Busnes (BCC)



hangodd yr Awdurdod ei Her Hinsawdd Busnes yn 2023, gan wahodd dros 200 o weithleoedd i leihau eu defnydd ynni o 10%. Derbyniodd cyfranogwyr gefnogaeth benodol gan gynnwys archwiliadau ynni ar y safle, cynlluniau lleihau ynni wedi'u prisio, a gweithdai sy'n canolbwyntio ar gynyddu arferion cynaliadwyedd. Mae data cynnar o'r Her yn dangos bod cyfranogwyr wedi cyflawni gostyngiad ynni o 7% ar gyfartaledd ac arbedion CO2 cyfwerth o 1.6 tunnell, gydag arbediad cost cyfartalog o £2,840. Roedd y rhaglen yn annog dysgu cymheiriaid ac ymrwymiad hirdymor i ddatgarboneiddio ar draws sectorau sy'n cymryd rhan.

**£2,840**
arbediad cost cyfartalog o leihau'r defnydd o ynni

**Effaith Amcangyfrifedig**
Lleihau allyriadau cyfanredol o 325 tunnell CO2e, newid ymddygiad eang a momentwm sefydliadol ar gyfer mentrau lleihau carbon parhaus.

**Cyngor Dinas Leeds**

# Menter Creu Coetir

Mae Leeds wedi ymrwymo i blannu 5.8 miliwn o goed ar dir sy'n eiddo i'r cyngor dros gyfnod o 20 mlynedd fel rhan o strategaeth y White Rose Forest. Yr amcan yw ehangu'r gorchudd canopi trefol o 17% i 33% erbyn 2050, gan hefyd wella cysylltedd ecolegol, lliniaru risgiau llifogydd, ac atafaelu carbon. Ym mlwyddyn gyntaf y fenter, plannwyd 200,000 o goed ar draws mwy na 130 hectar, gyda chost ddarparu o £350,000, wedi'i ariannu'n rhannol trwy gyfraniadau allanol. Mae'r prosiect yn fodd o liniaru ac addasu i newidiadau hinsawdd, gan annog cyfranogiad cymunedol a chynyddu cyfalaf naturiol ledled y ddinas.

**200,000**

o goed wedi eu plannu ym mlwyddyn gyntaf y fenter

**Effaith Amcangyfrifedig**

Atafaelu carbon hirdymor o oddeutu 250,000 tunnell $CO_2e$ dros 50 mlynedd; gwell gwytnwch rhag llifogydd, darpariaeth cynefinoedd ehangach, a gwell seilwaith gwyrdd trefol.



# Heriau pellach i weithredu'n ddwysach

Mae awdurdodau lleol y DU yn wynebu ystod o heriau sylweddol o ran cymryd camau effeithiol o ran newid hinsawdd, llawer ohonynt wedi'u gwreiddio mewn cyllid cyfyngedig, fframweithiau polisi tameidiog, a chyfyngiadau capasiti.

Ochr yn ochr â phwysau cyllido, mae awdurdodau lleol hefyd yn wynebu rhwystrau polisi a strwythurol sy'n cymhlethu gweithredu ar yr hinsawdd, yn enwedig o ran addasu. Er bod lliniaru – lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy fesurau fel effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, a thrafnidiaeth gynaliadwy – yn aml yn fwy gweladwy ac yn cael eu cefnogi gan dargedau cenedlaethol cliriach, mae addasu yn tueddu i fod yn llai diffiniedig ac yn anoddach ei flaenoriaethu.

Nid yw traean (32%) o awdurdodau lleol wedi cynnal asesiad risg a bregusrwydd hinsawdd eto ac nid yw 30% wedi datblygu strategaeth addasu neu gynllun gweithredu.

Mae manteision prosiectau addasu, fel amddiffynfeydd rhag llifogydd neu seilwaith gwyrdd, yn aml yn hirdymor, ataliol a gwasgaredig, gan eu gwneud yn anoddach eu cyfiawnhau o fewn cylchoedd cyllideb blynyddol a modelau cost-budd traddodiadol. Gall hyn adael awdurdodau lleol yn cael trafferth buddsoddi mewn mesurau a fyddai'n lleihau risgiau o achosion tywydd eithafol ac yn meithrin gwytnwch cymunedol, er gwaethaf brys cynyddol effeithiau newid hinsawdd.

Ar gyfartaledd, adroddodd awdurdodau lleol hanner nifer y camau gweithredu addasu o'u cymharu â chamau lliniaru.

Caiff ymdrechion lliniaru ac addasu yn aml eu rhwystro gan ddiffyg cydlynu ac arweinyddiaeth glir ar lefel genedlaethol. Mae angen polisïau cydlynol a fframweithiau rheoleiddio cefnogol ar awdurdodau lleol er mwyn cael newid systemig, boed hynny mewn safonau tai, polisi cynllunio, neu fuddsoddiad mewn seilwaith. Heb hyn, fe'u gadewir i weithredu o fewn system dameidiog, sy'n aml yn dyblygu ymdrechion, ac yn ymrafael â chyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd neu'n gwrthdaro rhwng cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Er bod llawer o awdurdodau lleol yn dod o hyd i ffyrdd o arwain er gwaethaf y rhwystrau hyn, bydd cynnydd parhaus ac ystyrlon yn gofyn am berthynas well rhwng uchelgais lleol a pholisi cenedlaethol, ynghyd â chyllid a chefnogaeth gyson ar gyfer ymdrechion lliniaru ac addasu.

**Mae llawer o awdurdodau lleol wedi nodi ffactorau sy'n effeithio ar gynnydd ar leihau allyriadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol.**

**78** o awdurdodau lleol wedi cwblhau'r gwaith o weithredu rheoliadau neu bolisïau a bennwyd gan lefel uwch o lywodraeth

**76** o awdurdodau lleol wedi adrodd am liniaru ffynonellau allyriadau a reolir gan lefelau uwch o lywodraeth

**74** o awdurdodau lleol wedi adrodd am ddarparu cyllid cenedlaethol ar gyfer seilwaith

**73** o awdurdodau lleol wedi adrodd am ddatgarboneiddio'r grid trydan

**71** o awdurdodau lleol wedi adrodd am liniaru ffynonellau allyriadau a reolir gan endidau preifat

**71** o awdurdodau lleol wedi adrodd am ddeddfwriaeth, rheoleiddio a/neu bolisi rhanbarthol/cenedlaethol ychwanegol

# Casgliad

**Er gwaethaf yr heriau niferus y maent yn eu hwynebu, mae awdurdodau lleol y DU yn parhau i gofleidio tryloywder amgylcheddol ac yn dangos arweinyddiaeth wrth weithredu ar yr hinsawdd yn lleol. Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa unigryw i ddeall anghenion eu cymunedau a'r risgiau hinsawdd penodol sy'n wynebu eu hardaloedd, ac mae llawer wedi dangos uchelgais go iawn wrth osod targedau sero-net, datblygu cynlluniau gweithredu ar yr hinsawdd, ac ymgorffori cynaliadwyedd mewn prosesau gwneud penderfyniadau bob dydd.**

Trwy adrodd eu data amgylcheddol yn dryloyw, mae dinasoedd yn gallu deall, cyflawni ac olrhain y camau diriaethol sydd eu hangen i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. P'un ai trwy feithrin partneriaethau creadigol, datgloi ffynonellau newydd o gyllid, neu weithredu prosiectau effeithiol sy'n lleihau allyriadau ac yn gwella gwytnwch hinsawdd, mae awdurdodau lleol yn canfod ffyrdd o ddefnyddio eu data datgelu i sbarduno newid – gan ysgwyddo cyfrifoldeb yn aml lle mae fframweithiau cenedlaethol wedi methu.

Er bod y sefyllfa gyllidol yn parhau i fod yn dameidiog ac yn aml yn annigonol, mae awdurdodau lleol rhagweithiol wedi llwyddo i wneud cynnydd ystyrlon o ran gweithredu ar yr hinsawdd. Mae'r gwersi o'r llwyddiannau hyn yn tanlinellu'r angen am ddull mwy strategol a pharhaus o gyllid gan lywodraeth ganolog - un sy'n grymuso pob awdurdod lleol i gynllunio'n hyderus, cydweithio'n effeithiol, a chynyddu eu huchelgeisiau o ran yr hinsawdd.

Mae'r ymrwymiad a'r ymdrechion parhaus gan awdurdodau lleol yn tynnu sylw at y rhan hanfodol sydd i lywodraeth is-genedlaethol yn y gwaith o drawsnewid y DU i ddyfodol carbon isel, sy'n gwrthsefyll newid hinsawdd. Mae awdurdodau lleol wedi profi dro ar ôl tro, o ystyried yr adnoddau a'r gefnogaeth polisi cywir, eu bod yn gallu sicrhau effaith wirioneddol – lleihau allyriadau, amddiffyn cymunedau rhag peryglon yr hinsawdd, a gwella ansawdd bywyd. Bydd cefnogi a chynyddu'r llwyddiannau lleol hyn yn hanfodol os yw'r DU am gyrraedd ei thargedau hinsawdd a sicrhau dyfodol teg, cynaliadwy a chadarnhaol i'r Ddaear i bawb.

Mae awdurdodau lleol yn canfod ffyrdd o ddefnyddio eu data datgelu i sbarduno newid — gan lwyddo yn aml lle mae fframweithiau cenedlaethol wedi methu.



## Y camau nesaf ar gyfer awdurdodau lleol

Gwella mesur ac adrodd ar allyriadau carbon ac effeithiau camau gweithredu ar yr hinsawdd i olrhain cynnydd yn well a llywio strategaethau yn y dyfodol.

Datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar yr hinsawdd sy'n cynnwys strategaethau lliniaru ac addasu gyda thargedau a mecanweithiau clir ar gyfer adrodd rheolaidd ac olrhain cynnydd.

Mynd i'r afael â heriau cyllid a chapasiti cyfyngedig trwy ddatblygu achosion busnes cadarn ar gyfer prosiectau ac archwilio ffynonellau cyllido amrywiol, gan feithrin arbenigedd mewnol ar yr un pryd.

Prif ffrydio ystyriaethau newid hinsawdd i bob cynllun, polisi a phroses gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol, gan feithrin cydweithredu traws-adrannol.

Trafod mewn difri â chymunedau lleol, busnesau, a lefelau eraill o lywodraeth i feithrin partneriaethau a chael gwybodaeth werthfawr ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd.





## Camau nesaf ar gyfer llywodraeth genedlaethol

Diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol yn glir wrth gyfrannu at darged sero net cenedlaethol y DU a darparu fframwaith sefydlog ar gyfer cydweithio rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

Sefydlu dyletswydd statudol i awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu ar yr hinsawdd a chyflawni gostyngiadau allyriadau sy'n cyd-fynd â chyllidebau carbon y llywodraeth.

Darparu cyllid tymor hwy, mwy rhagweladwy i alluogi awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu hinsawdd.

Symleiddio’r sefyllfa o ran cyfleoedd cyllido ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd mewn awdurdodau lleol, gan ddarparu canllawiau clir a lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynnig am grantiau tymor byr lluosog.

Gwella'r ddarpariaeth o gyllid cenedlaethol a chefnogaeth ar gyfer prosiectau seilwaith sy'n hanfodol i gyflawni sero net yn lleol.

Darparu arweiniad safonol, hyfforddiant ac adnoddau ar y cyd i feithrin capasiti a sgiliau mewnol awdurdodau lleol i asesu peryglon hinsawdd, datblygu cynlluniau gweithredu effeithiol, mesur effaith, a chael mynediad at gyllid.

# Atodiad

## Rhestr o’r awdurdodau lleol a ddatgelodd wybodaeth (cyhoeddus yn unig)

Mae 20 awdurdod lleol arall, nad ydynt wedi'u rhestru yma, wedi cyfrannu data heb fod yn gyhoeddus i'r adroddiad hwn trwy CDP-ICLEI Track.

- Cyngor Swydd Aberdeen
- Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf
- Cyngor Dinas Belfast
- Cyngor Dinas Birmingham
- Blackburn gyda Chyngor Bwrdeistref Darwen
- Cyngor Blackpool
- Cyngor Dosbarth Bolsover
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol y Broads
- Cyngor Bwrdeistref Broxtowe
- Cyngor Dinas Caergrawnt
- Cyngor Swydd Caergrawnt
- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Cheltenham
- Cyngor Bwrdeistref Chesterfield
- Dinas Brighton & Hove
- Dinas Caerdydd
- Dinas Gibraltar
- Dinas Caerlŷr
- Dinas Llundain (Y Ddinas)
- Dinas Manceinion
- Cyngor Dinas Efrog
- Cyngor Cernyw
- Cyngor Dinas Coventry
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor
- Cyngor Dinas Derby
- Cyngor Swydd Derby
- Cyngor Dudley
- Cyngor Dinas Dundee
- Cyngor Swydd Durham
- Cyngor Dinas Caeredin
- Cyngor Swydd Essex
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor
- Cyngor Bwrdeistref Gedling
- Cyngor Dinas Glasgow
- Awdurdod Llundain Fwyaf
- Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf
- Cyngor Bwrdeistref Llundain Hammersmith a Fulham
- Cyngor Dosbarth Harborough
- Cyngor Bwrdeistref Hinckley a Bosworth
- Cyngor Kirklees
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd
- Cyngor Swydd Gaerhirfryn (Y Ddinas)
- Cyngor Dinas Leeds
- Cyngor Swydd Caerlŷr
- Cyngor Swydd Lincoln
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Loch Lomond a Trossachs
- Awdurdod Parc Cenedlaethol New Forest
- Cyngor Dinas Newcastle
- Cyngor Bwrdeistref Newcastle-under-Lyme
- Cyngor Dosbarth Gogledd Ddwyrain Swydd Derby
- Cyngor Gogledd Tyneside
- Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors
- Cyngor Gogledd Swydd Efrog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Northumberland
- Cyngor Dinas Norwich
- Cyngor Sir Nottingham
- Cyngor Dinas Rhydychen
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Perth a Kinross
- Cyngor Bwrdeistref Reading
- Rhanbarth Powys
- Cyngor Richmond
- Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe
- Cyngor Bwrdeistref Fetropolitan Sandwell
- Cyngor Dinas Sheffield
- Cyngor Solihull
- Cyngor Dosbarth De Swydd Derby
- Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs
- Cyngor De Swydd Gaerloyw
- Cyngor Dinas Southampton
- Cyngor Dosbarth Stroud
- Cyngor Dinas Sunderland
- Cyngor Swydd Surrey
- Cyngor Bwrdeistref Swale
- Cyngor Bwrdeistref Tamworth
- Cyngor Wakefield
- Cyngor Wandsworth
- Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Cyngor Dinas Westminster
- Cyngor Wigan
- Cyngor Bwrdeistref Wokingham
- Cyngor Dinas Wolverhampton
- Cyngor Dinas Caerwrangon

## Awduron yr adroddiad

**Tom Garrood**
Rheolwr UK Cities

**Savannah Thompson-Davis**
Uwch Swyddog Ymgysylltu UK Cities

**Jenny Holloway**
Uwch Swyddog Adrodd Straeon a Gwybodaeth Data

**I wybod mwy am adrodd yn flynyddol, anfonwch e-bost at:**
citiesEMEA@cdp.net

**Ar gyfer ymholiadau'r cyfryngau, cysylltwch â:**
media@cdp.net

**CDP Worldwide**
60 Great Tower Street
London
EC3R 5AZ
Tel: +44 (0) 203 818 3900
citiesEMEA@cdp.net
www.cdp.net

Casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn mewn partneriaeth gan CDP ac ICLEI – Llywodraethau Lleol ar gyfer Cynaliadwyedd.

**Gyda diolch i:** Sefydliad Esmée Fairbairn am ei gefnogaeth i waith CDP gyda UK Cities.

## Ynglŷn â CDP

Mae CDP yn sefydliad dielw byd-eang sy'n cynnal yr unig system datgelu amgylcheddol annibynnol yn y byd. Fel sylfaenydd adrodd amgylcheddol, rydym yn credu mewn tryloywder a grym data i sbarduno newid. Mewn partneriaeth ag arweinwyr ym maes menter, cyfalaf, polisi a gwyddoniaeth, rydym yn cyrchu'r wybodaeth sydd ei er mwyn gwneud penderfyniadau cadarnhaol am y Ddaear. Fe wnaethom ni helpu mwy na 24,800 o gwmnïau a bron i 1,000 o ddinasoedd, taleithiau a rhanbarthau i ddatgelu eu heffeithiau amgylcheddol yn 2024. Mae ein tîm yn wirioneddol fyd-eang, wedi'i uno gan ein hawydd cyffredin i adeiladu byd lle mae pobl, planed ac elw yn wirioneddol gytbwys. Ewch i cdp.net neu dilynwch ni @CDP i ddarganfod mwy.

Crëwyd yr adroddiad hwn gan ddefnyddio'r data a adroddwyd gan 104 o awdurdodau parciau lleol a chenedlaethol y DU trwy CDP-ICLEI Track yn 2024. Gellir lawrlwytho ein cyfresi data ffynhonnell agored am ddinasoedd, taleithiau a rhanbarthau yn rhad ac am ddim o'n Porth Data Agored.

I wybod mwy am ddatgelu blynyddol, e-bostiwch citiesemea@cdp.net.